



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a sut brofiad fyddai i weithio yn y sector celfyddydau perfformio.
- Sut i ddatblygu eich sgil celfyddyd perfformio drwy ddawns, drama, a theatr gerddorol.
- Am beth sydd ei angen i gyflwyno perfformiad yn llwyddiannus.
- Am eich agwedd at waith a'r ffordd gywir o wneud cynnydd yn y sector celfyddydau perfformio.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai ym Mangor am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn ei chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Bydd angen peth profiad o ddawnsio a chanu ac esgidiau dawnsio addas.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd angen perfformio prosiect terfynol a asesir yn bennaf gan eich tiwtor cwrs. Bydd yna hefyd rai aseiniadau ysgrifenedig a phortffolio o waith ynghyd ag arholiad allanol ar gyfer uned craidd.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ymlaen i Ddiploma BTEC Lefel 2 neu i'r Diploma BTEC Lefel 3. Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gyda'r Celfyddydau Perfformio, gallwch ddewis cymwysterau addas eraill, yn dibynnu ar yr hyn yr hoffech edrych arno nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Gweithio mewn Theatr
- Gweithio gyda Theledu/Radio

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol:

<http://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/performing-arts-2012-nqf.html#tab-1>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com